RHAN 2 – ERTHYGLAU'R CYFANSODDIAD

Erthygl 3 - Dinasyddion a'r Cyngor

3.1 Hawliau Dinasyddion

Mae gan ddinasyddion yr hawliau canlynol. Caiff eu hawliau i wybodaeth ac i gymryd rhan eu hegluro'n fanylach yn y Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth, a nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

(a) Pleidleisio a Deisebau

Mae gan ddinasyddion ar gofrestr etholiadol yr ardal yr hawl i lofnodi deiseb i wneud cais am refferendwm ar gyfer 'maer etholedig' a'r hawl i bleidleisio mewn unrhyw refferendwm o'r fath.

(b) Gwybodaeth

Mae gan ddinasyddion yr hawl i:

(i) mynychu cyfarfodydd y Cyngor, ei Bwyllgorau a'r Cabinet heblaw am rannau o'r cyfarfodydd pan fo gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth eithriedig yn cael ei thrafod, a bod y busnes yn cael ei drafod yn breifat;

(ii) gweld adroddiadau neu bapurau cefndirol y cyfarfodydd cyhoeddus, ac unrhyw gofnodion o benderfyniadau a wnaed gan y Cyngor, y Cabinet ac uwch swyddogion dynodedig; ac

(iii) archwilio cyfrifon y Cyngor a dweud eu barn wrth yr archwiliwr allanol.

(c) Cyfranogiad

(i) Mae gan ddinasyddion yr hawl i gyfrannu at ymchwiliadau gan Bwyllgorau Craffu yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Craffu, fel y nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn;

(ii) gofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Cyngor, gofyn cwestiynau i aelodau'r Cabinet neu Gadeirydd Pwyllgor.

(d) Cwynion

Mae gan ddinasyddion yr hawl i gwyno wrth:

(i) yr awdurdod ei hun dan ei Bolisi Cwynion;

(ii) yr Ombwdsmon am unrhyw anghyfiawnder y maen nhw wedi'i ddioddef o ganlyniad i gamweinyddu, ond cânt eu hannog i ddefnyddio Polisi Cwynion y Cyngor yn gyntaf;

(iii) yr Ombwdsmon os ydynt yn credu bod Cynghorydd neu aelod cyd-etholedig yr Awdurdod wedi torri Cod Ymddygiad yr Aelodau.

3.2 Cyfrifoldebau dinasyddion

Ni chaiff dinasyddion fod yn dreisgar nac yn ymosodol tuag at Gynghorwyr neu gyflogeion, na niweidio eiddo'r Awdurdod, Cynghorwyr na chyflogeion ar bwrpas.